Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynaliadwyedd:** Adroddiad Blynyddol 2024-25

Gorffennaf 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynaliadwyedd:** Adroddiad Blynyddol 2024-25

Gorffennaf 2025

senedd.cymru



# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ 7
**Crynodeb o berfformiad** ........ 8
**Carbon** ........ 10
**Ynni** 16
**Gwastraff, dŵr ac adnoddau eraill** ........ 17
**Teithio** ........ 19
**Bioamrywiaeth** ........ 21
**Addasu i newid hinsawdd ac effeithiau eraill** ........ 23
**Rhanddeiliaid eraill** ........ 24
**Rheoli Amgylcheddol** ........ 25
**Atodiad A - Tablau Data** ........ 26



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd



**Janet Finch-Saunders AS**
Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy

# Cyflwyniad

## Mae'r metrigau cynaliadwyedd sefydlog y gwnaethom adrodd arnynt yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi newid, ac eleni mae cynnydd yn llawer o'n ffigurau carbon.

Yn y cyfnod cyn blwyddyn etholiad – ac un lle bydd maint a ffurf y Senedd yn newid – rydym wedi bod yn paratoi'r ystad, ac yn gweld cynnydd mewn teithio busnes.   Mae'r rhain wedi cynhyrchu allyriadau carbon sy'n ein gwthio dros un o'n targedau blynyddol interim am y tro cyntaf. Mae'n gwbl amlwg bod llawer o'r enillion cyflym a'r arbedion effeithlonrwydd a gynhaliwyd yn y blynyddoedd blaenorol wedi bod yn llwyddiannus, ond wedi cyrraedd eu terfyn, a bydd angen gwneud penderfyniadau ar brosiectau cyfalaf ochr yn ochr â'r rheini sy'n ymwneud â dyfodol yr ystad.

Eleni, rydym wedi gallu gwneud rhywfaint o fuddsoddiad pellach yn yr ystad, gan gynnwys trosi rhai ardaloedd sy'n weddill yn oleuadau LED. Mesurau – ochr yn ochr â gwelliannau effeithlonrwydd eraill – sydd wedi arwain at ostyngiad mewn trydan unwaith eto eleni.

At hynny, mae ein hadroddiadau carbon Cwmpas 3 yn gwella, ac erbyn hyn mae gennym lwybr clir ar gyfer cynhyrchu data cyflenwyr sy'n fwy manwl gywir. Gan weithio mewn meysydd gyda'r potensial mwyaf i wella, yn y lle cyntaf, mae un o'n interniaid Ymlaen eisoes wrthi. Fel cwsmer allweddol yn y sector cyhoeddus, dylai ein perthnasoedd â chyflenwyr fod o fudd i'r naill ochr a'r llall. Er ein bod, felly, yn nodi metrigau cynaliadwyedd ac yn annog cyflwyno mwy o ddata, rydym, hefyd, yn awyddus i helpu cyflenwyr i wella eu hadroddiadau a fydd yn ei dro o gymorth iddynt.

# Crynodeb o berfformiad

Eleni, rydym yn adrodd bod ein hôl troed carbon craidd, sef un o'n dangosyddion perfformiad allweddol, yn uwch na'r targed am y tro cyntaf. Roedd y targed blynyddol, a fu'n gostwng yn barhaus tuag at y nod ar gyfer 2030 – a bennwyd gennym ar ein cyfer ni ein hunain yn ein strategaeth carbon niwtral, Hwyl Fawr i Garbon – yn mynd i fynd yn anoddach i'w gyrraedd.

Eleni, gyda addasiadau i sicrhau bod pawb ar ein hystad mor gyfforddus â phosibl, ac mewn cyfnod pan mae'r ystad wedi bod ychydig yn brysurach na'r llynedd, rydym wedi gweld cynnydd yn y galw am wresogi. At hynny, rydym wedi gweld cynnydd mewn teithio – gan Aelodau, eu staff a staff y Comisiwn. Mae rhywfaint o hyn wedi bod dramor, ac mae'r allyriadau hedfan sy'n deillio o hyn wedi effeithio ar ein hôl troed carbon.

Rydym yn parhau i geisio mesurau effeithlonrwydd pellach, ar ben yr ymyriadau helaeth a gymerwyd yn y blynyddoedd blaenorol, i dargedu cynnydd tuag at ein nod. Yn dilyn gostyngiad mewn gwaith cyfalaf y llynedd oherwydd pwysau ar gyllid, eleni rydym wedi gallu cynnal ychydig o'r gwaith hwn, gan gynnwys disodli cylch oes gyda thechnoleg fwy effeithlon, ac disodli mwy o oleuadau gydag unedau LED. Mae rhai gwelliannau wedi'u gwneud mewn agweddau o'n hôl troed carbon; mae gennym ffigur trydan ychydig ganrannau yn is na'r llynedd, tra bod cynnydd bach yn y defnydd o'r ystad gan bob rhanddeiliad.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i gynllunio ymlaen llaw; er enghraifft, drwy ystyried prosiectau ailosod cylch oes pellach ochr yn ochr â phwyntiau penderfynu allweddol ym mhrosiect Bae 32, yn ogystal ag opsiynau i leihau’r allyriadau teithio hynny.

Mae'r ôl troed carbon rydym yn ei gyfrifo nawr yn cynnwys allyriadau Cwmpas 3 ehangach, ond byddwn yn parhau i adrodd ar ein hôl troed carbon craidd yn yr adroddiad hwn, er cysondeb.  At hynny, rydym yn cyhoeddi ystod eang o fetrigau eraill, gan gynnwys ffigurau ariannol, sydd i gyd wedi'u cynnwys yn y tablau data canlynol.  Cyhoeddir rhagor o wybodaeth yn y prif Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd, sydd ar gael ar wahân ar ein gwefan.

Rydym yn parhau i weithredu system rheoli amgylcheddol ardystiedig, sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff achrededig gan UKAS yn erbyn gofynion ISO14001.

# Carbon


Mae ein hôl troed carbon wedi cynyddu eleni. Cododd allyriadau Cwmpas 1 – yn bennaf defnydd nwy ar yr ystad – ychydig i lefelau tebyg iawn i ddwy flynedd yn ôl, ac mae'n adlewyrchu'r ddarpariaeth wresogi oedd gennym ar y pryd.  Y llynedd, o ystyried y prisiau uned sylweddol uwch yr oeddem yn eu talu, bu'n rhaid i ni wneud toriadau i'r ddarpariaeth gwresogi yn benodol.

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, ac ystad ychydig yn brysurach, cafodd rhai o'r mesurau hynny eu llacio ychydig – heb fod i'r un lefelau tymheredd ag oedd ar waith gennym dair neu bedair blynedd yn ôl – ac rydym yn dal i fod wedi gallu dangos gostyngiad ariannol da, er gwaethaf gaeaf oerach na'r llynedd, tua 10% yn ôl y data diwrnodau gradd.  Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i'r rhwydwaith gwres sy'n cael ei adeiladu o amgylch Caerdydd, a fydd yn dod â gwres carbon is inni o ffynhonnell leol.

Mae teithio yn elfen arall o'n hôl troed carbon sydd wedi cynyddu eleni. Drwy gydol y cylch etholiadol, gwelwn gylchred a adlewyrchir mewn hawliadau teithio, ac efallai mai dyma un achos dros fwy o weithgarwch eleni.  At hynny, rydym wedi parhau â'n gwaith cydweithredol â seneddau eraill dramor, ac mae rhywfaint o'r gwaith hwnnw wedi golygu hedfan i greu'r cysylltiadau wyneb yn wyneb hynny.  At ei gilydd, mae'r ffactorau hyn wedi cael effaith sylweddol ar ein hôl troed carbon.  Rydym yn parhau i hyrwyddo opsiynau teithio carbon isel ac iach lle bynnag y bo modd, a byddwn yn targedu allyriadau teithio dros y flwyddyn nesaf gyda'r nod o ostwng y ffigur hwnnw.

Mae ein gwaith ar allyriadau Cwmpas 3 yn parhau i fynd rhagddo mewn difrif, ac erbyn hyn mae gennym intern yn gweithio gyda'n cyflenwyr i sicrhau bod y data hwn mor fanwl gywir â phosibl, ac er mwyn ein helpu i chwilio am gyfleoedd i arbed arian.  Rydym, bellach, yn cynnwys cwestiynau data carbon fel safon yn ein hymarferion caffael gyda chyflenwyr, ac yn edrych ymlaen at gael y data mwy manwl gywir hynny i wneud penderfyniadau prynu sy'n fwy ymwybodol o ran carbon, yn y dyfodol.

***Ôl Troed Carbon (tCO2e)(Cwmpas 1, 2 a 3 -teithio busnes)***




*Mae ein hôl troed carbon craidd yn dangos cynnydd bach eleni, oherwydd y cynnydd hwnnw yn y defnydd o nwy.*

## Cwmpas 3

At hynny, mae ein hallyriadau carbon Cwmpas 3 yn fwy eang wedi cynyddu eleni. Mae'r allyriadau teithio uchod wedi cynyddu, ac rydym wedi gweld cynnydd bach yn ein cyfrifiadau *gweithio o gartref* a *chymudo*, oherwydd bod ychydig yn fwy o staff.

Mae caffael yn un maes sydd wedi cynyddu'n sylweddol eleni.  Y rheswm pennaf dros hynny yw paratoi ystad y Senedd ar gyfer y Seithfed Senedd.  Mae ehangu'r Senedd yn cynnwys mwy o Aelodau, mwy o staff cymorth, a staff y Comisiwn. Mae'r newid hwn yn gofyn am fwy o ddodrefn, ac rydym wedi prynu llawer ohono eleni, er mwyn paratoi. Mae swyddfeydd ychwanegol i Aelodau wrthi'n cael eu hadeiladu, gan ddefnyddio ein hadeilad swyddfa presennol i wneud hynny, ond mae angen gwaith ailgyflunio.  Bydd adeilad y Senedd ei hun yn newid, hefyd – mae'r cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd yn golygu bod angen desgiau ychwanegol yn y siambr ddadlau.  Unwaith eto, mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo, ac mae costau'r gwaith a wnaed hyd yn hyn wedi effeithio ar ffigurau caffael 2024/25.


Mae'r ffrydiau gwaith hyn yn cynnwys cynaliadwyedd fel egwyddor gyffredinol iddynt, ac rydym yn sicrhau bod meini prawf cynaliadwyedd wedi'u cynnwys yn y manylebau tendr ar gyfer darpar gontractwyr.

Rydym yn gweithio gyda rhai o'n prif gyflenwyr o ran caffael ôl troed Cwmpas 3 i gyfrifo eu hallyriadau'n fwy cywir, cyn edrych i'w lleihau yn y dyfodol.  Fel rhan o'n cynllun interniaeth cyffrous, Ymlaen, mae gennym un recriwt newydd yn gweithio

ar y pwnc hwn fel rhan o'u rôl – gwaith a fydd yn rhoi profiad gwerthfawr iddynt ar gyfer maes sy'n tyfu ac yn rhoi data gwerthfawr inni i wella ag ef.

Ar hyn o bryd, wrth amcangyfrif allyriadau Cwmpas 3 gan ddefnyddio trosiad yn seiliedig ar wariant, mae unrhyw gynnydd mewn costau gan gyflenwyr – o ganlyniad, er enghraifft i chwyddiant neu gostau deunyddiau – yn cael ei adlewyrchu fel cynnydd mewn carbon. Wrth weithio gyda chyflenwyr i gynhyrchu data mwy cywir, rydym, hefyd, yn edrych i gael gwared ar yr effeithiau canlyniadol hyn ar ein hadroddiadau.

***Carbon Cwmpas 3 (tCo2e), 2023-24***




*Ein hallyriadau carbon Cwmpas 3 ar gyfer 2024-25*

## Strategaeth Lleihau Carbon – Cynnydd

Rydym wedi parhau â'n cynnydd gyda'r mesurau a amlinellir yn y ddogfen strategaeth 'Hwyl Fawr i Garbon'. Roedd adnoddau ar gael ar gyfer rhywfaint o waith cyfalaf, gan ganiatáu inni newid rhai o'r ffitiadau golau sy'n weddill i LEDs. Mae ein tîm Cyfleusterau yn parhau i fod wedi ymrwymo i'r cynllun gwresogi ardal yng Nghaerdydd, ac yn parhau i weithio gyda Chyngor Caerdydd a'u contractwr i baratoi ein hystad ar gyfer cysylltu. Erbyn hyn, mae'r cynllun aberthu cyflog cerbydau trydan ar waith ac ar gael i staff, gan eu helpu i ddewis dull mwy cynaliadwy lle mae teithio mewn car yn angenrheidiol.

Yn ystod 2025-26, rydym yn bwriadu comisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailosod cylch oes yr unedau trin aer a restrir yn y Strategaeth, a fyddai'n cynnig manteision o ran cynaliadwyedd. Mae prosiectau cyfalaf pellach a amlinellir yn y map ffordd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â phwyntiau penderfynu allweddol yn rhaglen Ffyrdd o Weithio, sy'n cynnwys adolygiad o'n hystad ym Mae Caerdydd.



B

## TARGED TYMOR BYR: (2021-2023)

| | | |
|---|---|---|
| Newid ymddygiad a chynnal a chadw da | 100 | **2023**: 100% wedi'i gwblhau |
| Gwelliannau BMS (tri adeilad) | 59 | **2023**: 50% wedi'i gwblhau |
| Monitro – meddalwedd a mesuryddion ychwanegol | 52 | **2023**: 100% wedi'i gwblhau |
| Goleuadau LED: parhau i'w hamnewid ac adolygu'r rheolaethau | 30 | **2024**: 90% wedi'i gwblhau |

**= ARBED 241 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN**

## TARGED TYMOR CANOLIG: (2023-2026)

| | | |
|---|---|---|
| Ailwampio unedau trin aer | 42 | |
| Cysylltu â rhwydwaith gwresogi ardal | 132 | **2024**: 80% wedi'i gwblhau |
| Symud Tŷ Hywel yn ôl i awyru goddefol | 97 | |
| Gosod PV solar (Senedd a Thŷ Hywel) | 60 | |

**= ARBED 331 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN**

# Lleihau Carbon

Isod mae crynodeb o'r cerrig milltir yn ein Strategaeth Niwtral o ran Carbon Neutral Strategy 2021-2030.

Mae'r cynnydd yn ôl ein targedau tymor byr wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2025.

Mae'r Strategaeth lawn ar gael ar ein gwefan **www.senedd.cymru**

C

H

**TARGED TYMOR HIR:**
**(BY 2030)**

| | |
|---|---|
| Pympiau gwres o'r awyr ar gyfer cyflenwad dŵr poeth | **10** |
| Archwilio newidiadau i lwfansau teithio a chynhaliaeth i annog y defnydd o gerbydau trydan dros gerbydau â pheiriant tanio mewnol [1] | **82** |

**= ARBED 10 I 92 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN**

[1] ar sail lefel gyfredol yr hawliadau ceir preifat a mabwysiadu cardiau RFID, ffigur carbon ar gyfer milltiroedd mewn car maint canolig.

# Ynni

Y llynedd, fe wnaethom adrodd am gynnydd sylweddol mewn costau ynni, o ystyried yr anwadalrwydd yn y farchnad fyd-eang.  Eleni, mae ein prisiau wedi gostwng, ac mae rhai o’r mesurau a gymerwyd gennym i leihau’r defnydd o nwy yn sylweddol wedi cael eu llacio rywfaint.

Roedd hyn mewn ymateb i gynnydd yn y defnydd o’r ystad, ac adborth gan randdeiliaid.  Mae hyn wedi golygu bod y defnydd o nwy wedi cynyddu ychydig eleni, ond roedd yn dal i fod modd o dorri ein gwariant.

Mae'r defnydd o drydan yn rhywbeth rydym yn parhau i’w dargedu; chwilio am fesurau effeithlonrwydd ar draws yr ystad.  Mae ein tîm yn cyfarfod yn fisol i drafod defnydd a chynnig mesurau i leihau, mewn ymgais barhaus i leihau'r rhan fwyaf hon o’n hôl troed carbon craidd.

Mae’r mesurau rydym wedi’u rhoi ar waith eleni i leihau'r defnydd o ynni ar yr ystad, yn cynnwys uwchraddio goleuadau LED sy'n weddill yn Nhŷ Hywel, camerâu teledu cylch cyfyng mwy effeithlon, ac astudiaethau dichonoldeb ar gyfer unedau trin aer newydd a system rheoli adeiladau newydd, ill dau yn lleihau'r defnydd. Mae bron pob un o’n ardaloedd swyddfeydd bellach yn rhedeg ar LEDs, sy'n golygu ychydig llai o waith cynnal a chadw yn ogystal ag arbedion trydan.

Rydym yn parhau i brynu ein hynni drwy fframwaith y llywodraeth, ac yn gwneud hynny’n awr dros ffenestr brynu hirdymor.  Mae hyn yn cynnig arbedion o ran maint, gan ein bod yn prynu ochr yn ochr â llawer o weddill y sector cyhoeddus, ac mae'r strategaeth brynu yn llyfnhau amrywiadau yn y farchnad; gan ganiatáu inni ragweld gwariant yn fwy cywir.

# Gwastraff, dŵr ac adnoddau eraill

Mae cynhyrchiad gwastraff wedi codi eleni – unwaith eto yn adlewyrchiad o'r defnydd cynyddol o’r ystad. Er ein bod yn parhau i beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi, rydym yn ymwybodol o'r angen i ailgylchu cymaint â phosibl a dim ond defnyddio'r opsiwn adfer ynni lle bo angen.


Gyda newid yn y gofynion ar gyfer ailgylchu yn y gweithle yn gynnar yn 2024, a phrinder cynwysyddion gwastraff ar gael yn y farchnad i ddarparu ar gyfer y newid, gostyngodd ein ffigurau ailgylchu, yn y lle cyntaf, fel canran o'r cynhyrchiad cyffredinol.

Dros y flwyddyn nesaf – yn enwedig wrth inni wneud newidiadau i'n hystad i baratoi ar gyfer y Senedd ar ei newydd wedd – byddwn yn adolygu argaeledd a chyhoeddusrwydd biniau ailgylchu o amgylch ein hadeiladau unwaith eto ac yn annog Aelodau, staff ac ymwelwyr i ailgylchu cymaint â phosibl.

Roedd y defnydd o ddŵr yn debyg iawn i'r llynedd – tua 10% yn llai yn ôl ein darlleniadau mesurydd â llaw, er bod gennym niferoedd tebyg o ymwelwyr, a chynnydd bach yn nifer y staff a oedd yn defnyddio'r swyddfeydd. Mae costau cyflenwi a gwaredu dŵr wedi gostwng yn ôl swm tebyg. Lle mae yna osodiadau newydd, mae’r rhain, bellach, yn arbed dŵr yn ddiofyn, gan gynnwys tapiau awtomatig ac wrinalau â synhwyrydd symudiad.


Rydym yn parhau i gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu a’n cyfleustodau drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a gydgysylltir yn ganolog. Mae staff cynaliadwyedd yn ymwneud â datblygu manylebau ac adolygiadau tendro ar gyfer pob contract mawr, gan sicrhau bod safonau fel Masnach Deg a’r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) yn cael eu pennu lle y bo’n berthnasol. At hynny, rydym wedi parhau i ofyn i gyflenwyr newydd gyfrifo ôl troed carbon nwyddau lle bo modd, er mwyn ein helpu i gyfrifo ein hôl troed ein hunain yn fwy manwl gywir.

***Cyfanswm y Gwastraff a Dargyfeirio o Safleoedd Tirlenwi***




*Mae tunelledd gwastraff wedi codi rywfaint, ond rydym yn parhau i ddargyfeirio'r holl ddeunyddiau o safleoedd tirlenwi.*

***Defnydd Dŵr (m3***




*Mae'r defnydd o ddŵr wedi amrywio dros amser mewn ymateb i newidynnau fel digwyddiadau, meddiannaeth adeiladau, a chynnal a chadw, ond mae'n parhau i ddangos tuedd ar i lawr, yn gyffredinol.*

# Teithio

## Rydym yn gweithredu un car at ddefnydd pawb, ar gyfer teithiau busnes a gweithgareddau ymgysylltu. Mae hwn yn gerbyd cwbl drydanol sydd nid yn unig yn lleihau allyriadau yn yr ardaloedd yr ydym yn ymweld â nhw, ond sydd hefyd yn hyrwyddo'r dechnoleg hon.


Mae cerbydau trydan yn parhau i dyfu o ran poblogrwydd ymhlith ein staff, ymwelwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae’r pwyntiau gwefru sydd gennym ar y safle yn aml yn llawn ar ddiwrnodau busnes. Mae'r cynllun aberthu cyflog cerbydau trydan, yr ydym yn parhau i'w weithredu, yn un o ffynonellau’r cerbydau hyn. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo'r arbedion ariannol y gall cerbyd allyriadau isel iawn eu cynnig, nid yn unig i'n staff, ond yn enwedig i'r Aelodau, fel y gellir teithio o amgylch eu hetholaethau mor lân ac effeithlon â phosibl.

Rydym yn parhau i gefnogi gweithio hybrid, ac mae gennym systemau TG helaeth ar waith i wneud hynny, o ystafelloedd cyfarfodydd hybrid i dechnoleg cyfarfodydd rhithwir sy'n gwella'n barhaus. Eleni, fodd bynnag, rydym wedi gweld cynnydd mewn teithio, cyfanswm y milltiroedd a, phan gyflwynir hawliadau terfynol diwedd y flwyddyn, rydym yn disgwyl cynnydd mewn costau hefyd. Fel y soniwyd, rydym wedi gweld hyn mewn cylchoedd etholiad blaenorol yn sgil y cynnydd mewn ymgysylltu wyneb yn wyneb, ond byddwn yn anelu at leihau lle bo modd.

Fe wnaethom gynnal ein harolwg teithio bob dwy flynedd i bobl sy'n gweithio o'n hystad yn ystod 2024. Mae hwn yn rhoi data wedi'i ddiweddaru inni, i gynhyrchu'r elfen cymudo o'n hôl troed carbon, yn ogystal ag adborth defnyddiol ar y cyfleusterau a ddarparwn. Roedd rhai pethau cadarnhaol yn yr arolwg diweddaraf, megis bod tua thraean o deithiau cymudo, erbyn hyn, yn hunan-bweredig (cerdded, beicio, olwynion, rhedeg). Y car yw'r dull teithio mwyaf poblogaidd ymhlith yr ymatebwyr o hyd, ac ers y pandemig rydym wedi gweld gostyngiad yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym yn parhau i fod yn aelod o grŵp y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer teithio llesol ac wedi cyflawni nod siarter y Cyflogwr Teithio Iach. Mae hyn yn adlewyrchu ein cyfleusterau helaeth ar gyfer y rhai sy'n cerdded ac yn beicio i'r gwaith, yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer gyrwyr cerbydau trydan a defnyddwyr e-feiciau. At hynny, mae bod yn rhan o’r grŵp hwn yn helpu i gynnal momentwm wrth inni rannu arfer gorau yn y maes hwn gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

***Cymudo wythnosol ar gyfartaledd yn ol ffurf (milltiroedd)***




*Er ein bod yn gweld symudiad at gerbydau mwy effeithlon ymhlith ein staff yn gyffredinol, ers y pandemig mae'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus wedi gostwng yn sylweddol.*

# Bioamrywiaeth

## Gyda'n hystad fechan, drefol, rydym wedi ein cyfyngu o ran yr effaith y gallwn ei chael ar fioamrywiaeth ehangach yr ardal, ond nid yw hyn wedi ein hatal rhag gwneud gwelliannau lle bo hynny'n bosibl.

Rydym yn parhau i gynnal llain gardd fwy a newydd ym maes parcio Tŷ Hywel, gan gynnwys dau bwll bach a choed sy'n blodeuo. Rydym yn cynnal y tir wrth ymyl adeilad y Senedd; mae lleihau toriadau o'r ardal laswelltir hon i ymyriadau blynyddol wedi caniatáu iddi gynhyrchu ystod eang o fflora, gan gynnwys dau fath o degeirianau. O ganlyniad i hyn, mae'r stribed blodau gwyllt hefyd bellach yn denu amrywiaeth o bryfed, gan gynnwys pryfed mursen a gloÿnnod byw.

Mae prosiect Gwenyn y Pierhead yn parhau i redeg yn dda ac mae wedi bod yn gatalydd ar gyfer rhai o'r mesurau bioamrywiaeth ar ystad ehangach Bae Caerdydd. Rydym wedi mynd ati i blannu planhigion sy'n denu pryfed peillio yn ein gardd, ac mae'r prosiect wedi helpu i ysbrydoli rhai o'r grwpiau ysgol sydd wedi ymweld â'r wenynfa ac wedi mynd â’r brwdfrydedd hwnnw yn ôl i'w gerddi eu hunain.

Fel Comisiwn, ychydig iawn o effaith sydd gennym ar fioamrywiaeth y tu hwnt i'n hystad, ond lle gallwn wneud dewisiadau cadarnhaol – er enghraifft, prynu pren wedi ei ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd – rhoddir blaenoriaeth i hyn bob amser fel rhan o'n hadnodd asesu effaith ar gynaliadwyedd.

Mewn ymateb i Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru), rydym wedi rhestru rhai o'n camau gweithredu a'n cynnydd gyda nhw yn y tabl isod. Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r wybodaeth hon yn flynyddol fel rhan o'r adroddiad hwn.

| Nod | Camau i'w cymryd | Cynnydd |
|---|---|---|
| Ymgorffori bioamrywiaeth ym mhrosesau penderfynu | Rydym yn parhau i weithredu system rheoli amgylcheddol ardystiedig ISO14001, gan gynnwys cynllun gweithredu sy'n cynnwys mesurau bioamrywiaeth. | Wedi'i archwilio'n llwyddiannus ym mis Chwefror 2025 yn erbyn y gofynion. |
| | Cynnal asesiadau risg cynaliadwyedd ar gyfer contractau caffael mawr, gan gynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth. | Wedi'i gwblhau, yn mynd rhagddo. Rydym yn parhau i gynnal yr asesiadau hyn ac yn chwilio am fioamrywiaeth sy'n berthnasol mewn contractau newydd. |
| | Addasu'r offeryn asesu effaith ar gynaliadwyedd, i gynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth. | Newydd. Dyddiad targed mis Gorffennaf 2025. |
| | Symbylu ymrwymiad i fioamrywiaeth yn ein polisi amgylcheddol. | Cwblhawyd ym mis Mawrth 2024. Polisi newydd ar gael ar ein gwefan. |
| | | |
| Diogelu rhywogaethau pwysig | Gosod blychau gwenoliaid ar Dŷ Hywel. | Wedi'i gwblhau, mis Mai 2019, er nad oes gwenoliaid yn y blychau, hyd yn hyn. |
| | Gosod gwestai trychfilod i annog gwenyn unigol. | Wedi'i gwblhau, 2022. Yn cael ei ddefnyddio'n helaeth yn ystod misoedd yr haf, erbyn hyn. |
| Adfer a chreu cynefinoedd | Newid y drefn torri gwair ar gyfer tir wrth ymyl y Senedd i doriadau blynyddol. | Wedi'i gwblhau, yn mynd rhagddo. Drwy dorri unwaith y flwyddyn yn unig, rydym yn gweld amrywiaeth eang o bryfed a phlanhigion yn byw yn yr ardal. |
| | Ymestyn stribed gardd Tŷ Hywel a chynnwys planhigion sy'n gyfeillgar i beillwyr, ac ail bwll. | Wedi'i gwblhau, yn mynd rhagddo. Rydym yn cynnal yr ardd newydd hon sy'n ffynnu, erbyn hyn, gyda phlanhigion wedi'u plannu ac wedi egino'n naturiol. |
| Gwella tystiolaeth a dealltwriaeth | Ailgychwyn arolygon peillwyr o'r stribed blodau gwyllt a'r ardal ardd. | Newydd. Dyddiad targed mis Gorffennaf 2025. |
| | Ymchwilio i ddichonoldeb darparu hyfforddiant llythrennedd hinsawdd i staff allweddol. | Newydd. Dyddiad targed mis Medi 2025. |

# Addasu i newid hinsawdd ac effeithiau eraill

Er bod cylch dylanwad ein Haelodau yn cynnwys pob rhan o fywydau pobl yng Nghymru, mae gweithrediadau Comisiwn y Senedd yn gymharol gyfyngedig, yn bennaf i'n hadeiladau ym Mae Caerdydd a swyddfa fach yng ngogledd Cymru.

Ar hyn o bryd, rydym wedi ein hamddiffyn rhag rhai o effeithiau gwaethaf newid hinsawdd, ond rydym yn paratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid. Er enghraifft, mae ein hystad ym Mae Caerdydd wedi'i diogelu i ryw raddau gan forglawdd Bae Caerdydd. Yn y tymor hwy, mae ein Strategaeth Carbon Niwtral yn cynnwys mesurau megis paneli solar, sy'n darparu amddiffyniad pellach rhag dyfodol ansicr.

Mae'r canlynol ymhlith ein camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- Gweithio gydag Awdurdod Harbwr Caerdydd a rhanddeiliaid eraill i wella ymwybyddiaeth a pharatoadau ar gyfer llifogydd ymhlith ein staff allweddol.
- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailosod cylch oes yr unedau trin aer sy'n oeri ein prif adeilad swyddfa (Tŷ Hywel).
- Cwblhau astudiaeth draenio o un o'n hadeiladau, er mwyn asesu parodrwydd ar gyfer glaw eithafol a defnyddio hyn fel enghraifft ar gyfer adeiladau eraill.
- Hyrwyddo llythrennedd hinsawdd ymhlith staff allweddol.
- Hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy a hunangynhaliol.

## Rhanddeiliaid eraill

Nid yw ein gwaith cynaliadwyedd bob amser wedi ei gyfyngu i'r ystad, Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn, ond mae'n dod â ni i gysylltiad â rhanddeiliaid eraill sy'n ystyried yr amgylchedd.

Rydym wedi gweithio gyda Senedd Ieuenctid Cymru ac yn parhau i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu â llawer o grwpiau ysgol a phobl ifanc eraill. Mae hyn yn cynnwys gwaith ynghylch rôl y Senedd, ond hefyd gweithgareddau fel ymweliadau â Gwenyn y Pierhead i ddysgu am beillwyr a bioamrywiaeth.

Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i rannu arfer gorau, yn enwedig seneddau eraill y Deyrnas Unedig. Mae'r fforymau hyn yn helpu gyda chysondeb wrth ymateb i bolisi ac aros o flaen y gromlin. O ystyried gorgyffwrdd o ran cyflenwyr, bydd hefyd yn helpu i sicrhau ein bod ni'n cymryd ymagwedd gyson â'r gadwyn gyflenwi wrth fynd i'r afael â'n hallyriadau cwmpas 3 yn y dyfodol.

# Rheoli Amgylcheddol

## Mae Comisiwn y Senedd wedi cynnal system rheolaeth amgylcheddol ffurfiol ers dros ddegawd.

Rydym yn credu mewn tryloywder yn ogystal â gosod y safonau uchaf i ni ein hunain, a dyna pam rydym yn cynnal system rheoli amgylcheddol sy'n cael ei harchwilio'n allanol yn unol â gofynion ISO14001.  Mae’r safon reoli hon yn mynnu bod amrywiaeth o gamau yn cael eu dangos mewn archwiliad allanol, gan gynnwys rheolaethau ar effeithiau amgylcheddol allweddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a rhaglen o archwiliadau mewnol.  Mae gennym dîm o archwilwyr mewnol hyfforddedig sy'n gwirio'r safle ffisegol a'n rheolaethau gweithredol i sicrhau ein bod ni’n cydymffurfio’n gyson drwy gydol y flwyddyn.  Mae'r archwilwyr hefyd yn gwirio risg llygredd ac yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl.

Rydym yn parhau i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn ogystal â seneddau eraill y Deyrnas Unedig, er mwyn rhannu arfer gorau wrth wella'r amgylchedd yn barhaus.

# Atodiad A - Tablau Data

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr net cwmpasau 1, 2 a 3 (teithio busnes, dŵr, gwastraff), tCO2e | 1,296 | 1,150 | 764 | 870 | 844 | 851 | **897** |
| Cyfanswm yr allyriadau ynni, tCO2e | 1,066 | 962 | 730 | 799 | 701 | 686 | **703** |
| NEWYDD – Cyfanswm allyriadau Cwmpas 3 (teithio, gweithio gartref, nwyddau a gwasanaethau, cymudo) | | | | | 2,841 | 2,879 | **3,530** |
| Cyfanswm y gwastraff (tunelli) | 128 | 100 | 41 | 50 | 63 | 63 | **80** |
| Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd, $m^3$ | 6,064 | 6,281 | 2,802 | 3,191 | 4,408 | 4,227 | **3,759** |
| Cyfanswm yr allyriadau teithio ar fusnes, tCO2e | 174 | 180 | 24 | 67 | 140 | 163 | **193** |
| Y defnydd o bapur (miliwn o ddalennau) | 2.73 | 2.33 | 0.86 | 0.65 | 1.97 | 2.05 | **1.97** |

** Nid yw'n cynnwys teithio gan Aelodau a'u staff cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025 oherwydd oedi o ran gofynion adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.*



Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales